

CYFARFOD Y CYNGOR a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 15fed Mawrth 2017 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, y Rhyl am 6.00pm.

YN BRESENNOL

Y Cyngorydd Miss S. L. Roberts (Maer)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Ms J. Hughes, A. R. James, Mrs P. M. Jones, Ms J. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms R. Siddall, D. Simmons, W. N. Tasker, T. Thomas a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

138. DECHRAU'R CYFARFOD

Dechreuodd Caplan y Maer, y Parchedig Andy Grimwood, y cyfarfod trwy arwain pawb a oedd yn bresennol mewn gweddi.

139. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr I. W. Armstrong (yn sâl), S. H. Ratcliffe (ymwmiad arall) ac A. J. Rutherford (ymrwmiad gwaith).

140. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 15fed Chwefror 2017 - Rhifau Cofnod 121-137

Cynigiwyd gan y Cyngorydd Miss S. L. Roberts ac eiliwyd gan y Cyngorydd Mrs E. M. Chard a **PHENDERFYNNWYD** eu bod yn gofnod cywir yn amodol ar ychwanegu ymddiheuriadau gan y Cyngorydd Mrs J Chamberlain-Jones (ar wyliau).

Pwyllgor Cynllunio - 15fed Chwefror 2017 - Rhifau Cofnod 52-54

Cynigiwyd gan y Cyngorydd Mrs W. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cyngorydd A. R. James a **PHENDERFYNNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 1af Mawrth 2017 - Rhifau Cofnod 55-57

Cynigiwyd gan y Cyngorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cyngorydd Mrs E. M. Chard a **PHENDERFYNNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Cadarnhau neu fel arall:

Pwyllgor Cyllid a - 1af Mawrth 2017 - Rhifau Cofnod 113-123
Dibenion Cyffredinol

Cynigiwyd gan y Cyngorydd P. Prendergast ac eiliwyd gan y Cyngorydd A. R. James a **PHENDERFYNNWYD** eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau ar gyfer gweithredu.

141. ADRODDIAD Y MAER

Cyfeiriodd y Maer a'r Dirprwy Faer at amrywiol ddogwyddiadau a fynychwyd ganddynt a'u mwynhau.

PENDERFYNWYD *derbyn yr adroddiad.*

142. YMGYNGHORIAD EILAIDD: AROLWG 2018 O ETHOLAETHAU SENEDDOL YNG NGHYMRU

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn y ddogfen uchod (dosbarthwyd llythyr gyda'r rhaglen a dolen i'r ddogfen gyfan yn y rhaglen) yn rhoi'r holl ymatebion o'r ymgynghoriad gwreiddiol, ar gael i wneud sylwadau.

PENDERFYNWYD *derbyn y ddogfen.*

143. CYMERADWYO RHEOLIADAU ARIANNOL CYNGOR TREF Y RHYL A CHYMERADWYO DIWYGIO'R RHEOLAU SEFYDLOG

Cyflwynodd Clerc y Dref ei gyd-adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) mewn perthynas â mabwysiadu rheoliadau ariannol newydd a diwygiad i Reol Sefydlog Rhif 26.

Mewn ymateb i gyngor a gafwyd gan Archwiliwr Mewnol y Cyngor Tref i ddiweddarau a chryfhau ei reoliadau ariannol, teimlir mai'r ffordd orau ymlaen yw dileu yn llwyr y rheoliadau presennol a'u disodli gyda'r Rheoliadau Ariannol Enghreifftiol a baratowyd gan Gymdeithas Genedlaethol Cyngorau Lleol (NALC).

Bydd hyn yn arwain at nifer o brosesau mewnol newydd, sef:

- Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, cyflwynir atodlen yn dangos y taliadau misol rheolaidd sydd angen eu gwneud e.e. TANC, rhent, cyflogau ac ati. Bydd manylion misol y taliadau sydd wedi eu gwneud yn dal i gael eu rhoi i'r Aelodau fel sy'n digwydd ar hyn o bryd yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol.
- Cyflwynir rhestr o gyflenwyr a'u cymeradwyo ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Cymeradwyr unrhyw gyflenwyr newydd a adnabyddir yn ystod y flwyddyn yng nghyfarfodydd misol y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ac eithrio mewn achosion brys pan roddir cymeradwyaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ac adrodd yn ôl.
- Bydd rhestr o daliadau i'w gwneud dros bob mis i ddod yn cael eu cyflwyno i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a'u llofnodi gan ddau Aelod a'r Clerc yn y cyfarfodydd.
- Bydd angen hefyd awdurdodi unrhyw newidiadau i fanylion banc cyflenwr gan un Aelod a'r Clerc.
- Bod Aelod yn cael ei ddynodi i wirio'r Cysoniadau Banc yn chwarterol ac ar ddiwedd y flwyddyn ac adrodd yn ffurfiol i'r Cyngor.

Mae angen y diwygiad i Reol Sefydlog 26 (materion ariannol) o ganlyniad i'r rheoliadau ariannol newydd.

Cyfeiriodd Clerc y Dref at y rhestr o gyflenwyr presennol a ddefnyddiwyd gan y Cyngor Tref dros y 18 mis diwethaf, i'w cymeradwyo'n ffurfiol (Atodiad C).

PENDERFYNWYD:

- (i) Cymeradwyo'r rheoliadau ariannol newydd.
- (i) Cymeradwyo'r diwygiad i Reol Sefydlog rhif 26.
- (ii) Cymeradwyo rhestr o gyflenwyr y Cyngor.

144. AROLWG ASESIAD RISG 2016 / 2017 A CHYNLLUN GWAITH 2017 / 2018

Cyfeiriodd y Maer at adroddiad Cadeirydd yr Is-bwyllgor Asesu Risg (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn amlinellu'r gwaith a wnaed gan yr Is-bwyllgor yn ystod 2016/17 a'r cynllun gwaith arfaethedig i'w wneud yn 2017/18 er cadarnhad yr Aelodau.

Nododd Aelod y gwaith arwyddocaol a gwblhawyd gan yr Is-bwyllgor a'r holl Bwyllgorau a'r Is-bwyllgorau eraill dros y 12 mis diwethaf wrth i ni ddod i ddiwedd blwyddyn ddinesig 2016/17 a chymerodd y cyfle i ddiolch iddynt oll.

PENDERFYNWYD cymeradwyo arolwg asesiad risg 2016/2017 a chynllun gwaith 2017/18.

145. EITEMAU ER GWYBODAETH

Dywedodd y Maer nad oedd materion brys wedi eu codi er gwybodaeth i'r Aelodau.

146. HOLI AC ATEB

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

147. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

148. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfrinachol y cyfarfodydd canlynol er gwybodaeth i'r Aelodau.

Strategol a Gweithredol - 13eg Chwefror 2017 - Rhifau Cofnod 25-30

Is-bwyllgor - 2il Mawrth 2017 - Rhifau Cofnod 32-37
Cynnal a Chadw Tiroedd

PENDERFYNWYD cydnabod y Cofnodion.

149. CYNGOR SIR DDINBYCH – DATBLYGIAD ARFAETHEDIG AR Y PROMENAD

Dywedodd Clerc y Dref nad oedd unrhyw beth newydd i'w adrodd.

150. EITEM SEFYDLOG – GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Ymhellach i gofnod rhif 79 cyfarfod a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, dywedodd Clerc y Dref nad oedd unrhyw geisiadau wedi eu derbyn gan Heddlu Gogledd Cymru.

151. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer:.....

Dyddiad: